Hyfforddiant i Hwyluswyr Gwelliant

Cynllunio gweithdai gwelliant wedi'r adolygiad

Gan weithio mewn grwpiau, dewiswch un o'r materion isod (neu fater real eich hun) a llunio braslun ar gyfer gweithdy.

Pethau i feddwl amdanynt:

- Pwy fydd y gynulleidfa yn eich gweithdy?
    - Cytunir ar hyn efo Pennaeth yr ysgol letyol
- Faint o amser sydd gennych?
    - Bydd gweithdai ryw 90 munud fel arfer, ond gall rhai fod yn hirach os ydynt yn rhan o ddiwrnod HMS
- Wyddoch chi am unrhyw waith ymchwil, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, allai gynnig her a chyfrannu at eich gweithdy?
- Pa adnoddau allech chi eu defnyddio i helpu'r aelodau:
    - Edrych yn fanylach ar y mater
    - Dechrau blaenoriaethu syniadau a chamau gweithredu.
- Sut fydd angen paratoi ar gyfer y gweithdy?

Crynhowch eich gwaith cynllunio ar bapur siart troi.

Cewch bum munud i gyflwyno eich gwaith cynllunio i gydweithwyr eraill, yna gawn nhw 5 munud i'ch holi a rhoi adborth.

Yn dilyn eich cyflwyniad, efallai bydd eich grŵp eisiau holi cwestiwn i'ch cydweithwyr. Er enghraifft, "Mae arnom angen cyngor ar/rydym yn poeni am/allwch chi roi adborth i ni ar xx".

Deilliannau adolygiad gan gymheiriaid: rhai materion

"Mae canran y rhieni sy'n helpu eu plant gyda'u darllen, yn uniongyrchol, yn isel iawn. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, does dim modd o gwbl i ni allu cael rhieni i gymryd diddordeb yn llythrennedd eu plant".

"Mae nifer y rhieni sy'n cefnogi gwaith cartref eu plant, yn uniongyrchol, ac yn cymryd diddordeb yn eu dysgu gartref, yn isel iawn, er ein bod yn ceisio ein gorau glas."

"Nid yw rhai o'n disgyblion, yn enwedig merched Blwyddyn 9 a 10, yn gwneud yr un cynnydd, nac yn cyrraedd yr un lefelau, mewn mathemateg o gymharu â Saesneg."

"Nid yw rhai o'n disgyblion, yn enwedig merched yn CA2, yn gwneud yr un cynnydd, nac yn cyrraedd yr un lefelau mewn mathemateg, o gymharu â llythrennedd."

"Nid yw adborth na marcio ar waith ysgrifenedig yn yr ysgol yn gyson, mae rhai arferion gwych ond mae'n dreth ar amser".

Eich syniad chi...

Education Development Trust Highbridge House, 16-18 Duke Street, Reading, Berkshire, RG1 4RU

T +44 (0)118 902 1000 **W** educationdevelopmenttrust.com

Education Development Trust is a registered charity (No. 270901) and company limited by guarantee (No. 867944) • Registered in England and Wales • Registered office as above

Copyright 2021, Education Development Trust, all rights reserved